Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sant Curig
# Heol y Coleg
# Y Barri
# Bro Morgannwg
# CF62 8HQ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Sant Curig yng nghanol tref y Barri ym Mro Morgannwg.

Mae 433 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, rhif sydd wedi cadw'n weddol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diweddar. Daw tua 24% o ddisgyblion o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn 15 o ddosbarthiadau, gan gynnwys dau ddosbarth ar gyfer plant meithrin. Gan gynnwys y pennaeth, mae 18 o athrawon amser llawn a dwy athrawes ran amser yn gweithio yn yr ysgol. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu drwy'r ysgol.

Mae 14% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae tua 16% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ionawr 2008. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym Medi 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Sant Curig yn 2013-2014 yw £3,082. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yw £7,758 a'r lleiafswm yw £2,718. Mae Ysgol Sant Curig yn safle 41 o'r 48 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- erbyn cyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae safonau llafar Cymraeg a Saesneg yn rhagorol;
- mae safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn gyson dda;
- mae ymrwymiad bron pob disgybl at ddysgu yn ystod gweithgareddau yn ardderchog;
- mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu eang sy'n ennyn diddordeb disgyblion o bob gallu ar draws yr ysgol;
- mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol iawn; ac
- yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r addysgu yn gadarn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo'n dda iawn i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
- mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion;
- mae gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu; ac
- mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen glir sy'n llywio gwaith yr ysgol yn dda.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn cyrraedd safonau priodol

A2 Gwerthuso a mireinio’r broses gynllunio i sicrhau dilyniant mewn cynnydd medrau allweddol ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod holl randdeiliaid yr ysgol yn ystyried ystod lawn o dystiolaeth uniongyrchol wrth lunio cynlluniau gwella

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion Ysgol Sant Curig yn gwneud cynnydd cyson a chadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. O oed cynnar iawn, maent yn cyfrannu'n gynyddol aeddfed a brwdfrydig i weithgareddau'r dosbarthiadau. Maent yn ddysgwyr annibynnol, hyderus sy'n abl i lywio eu dysgu eu hunain yn effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac maent yn cydweithio'n hwylus iawn mewn sesiynau gwaith grŵp.

Mae safonau llafar Cymraeg a Saesneg disgyblion yn dangos cynnydd cadarn iawn dros eu cyfnod yn yr ysgol ac, erbyn cyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn rhagorol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion eirfa gyffredinol a phynciol sy'n gynyddol gyfoethog, a llwydda disgyblion o bob oed i drafod eu gwaith yn effeithiol iawn. Gwnânt hyn yn estynedig mewn grwpiau bach ac yn gyhoeddus o flaen y dosbarth. Maent yn ymwybodol iawn o'r anghenion gwahanol sydd ynghlwm wrth sgwrsio'n anffurfiol a chyflwyno mewn dull mwy ffurfiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol, yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn medru gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o lyfrau, ac yn gallu mynegi barn ynglŷn â'u cynnwys, ac am eu hoff awduron. Maent yn medru caffael gwybodaeth yn effeithiol o lyfrau a ffynonellau electronig i gefnogi eu dysgu.

Mae safonau ysgrifennu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol dda, gyda llawer o'r disgyblion yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir, ac yn atalnodi eu gwaith yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn medru defnyddio amser gorffennol a ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus mewn darnau o waith ar draws y meysydd dysgu. Maent hefyd yn atalnodi'n gywir, ac yn gallu cywiro eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill, yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gyffredinol yn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn gywir mewn ystod eang o ffurfiau. Maent yn amrywio'u hysgrifennu'n effeithiol yn y ddwy iaith, ac mae eu gwybodaeth o nodweddion a rheolau iaith yn gadarn. Maent yn ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod briodol o bynciau a chyd-destunau gwahanol. Mae'r goreuon yn medru creu darnau estynedig o waith sy'n gywir iawn eu cystrawen, a diddorol eu cynnwys.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda iawn yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle mewn rhifau dau ddigid, ac yn medru cynhyrchu graffiau addas i gofnodi ymchwiliadau. Gallant drafod a dadansoddi'r wybodaeth yn y graffiau hynny yn gynyddol effeithiol.

Mae medrau rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gadarn dda. Maent yn defnyddio strategaethau addas i wneud cyfrifiadau yn y pen, ac i ddatrys problemau rhif a mesur. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau trin data'n hwylus i gasglu, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth mewn tablau a graffiau amrywiol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn llwyddo'n gynyddol i ddefnyddio'r medrau hyn mewn gwaith ar draws nifer o feysydd dysgu.

Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ar draws yr ysgol yn dda.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hanu o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad, mae'r disgyblion yn datblygu'n siaradwyr hyderus a naturiol yn gyflym iawn. Cymraeg yw iaith eu sgwrs gyda'i gilydd, a gallant sgwrsio'n rhugl a rhwydd ym mhob sefyllfa. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant a threftadaeth Gymreig. Mae hwn yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad cyffredinol yr ysgol ar y Deilliant 5 disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu o'r 50% isaf i'r 50% uchaf o'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn datblygiad llythrennedd a mathemateg yn y 50% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad y disgyblion mwy abl ar Ddeilliant 6 ym mhlith y 50% is yn 2012 a 2013, o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Cynyddodd y perfformiad mewn datblygiad mathemategol o'r 25% isaf yn 2012 i'r 50% is yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, o'u cymharu ag ysgolion tebyg cynyddodd perfformiad cyffredinol yr ysgol i'r 25% uchaf ar y lefel 4 ddisgwyliedig. Yn y tair blynedd cyn hynny, amrywiodd perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth rhwng y 25% isaf a'r 50% is ym mhlith ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch. Yn 2013, fe wellodd perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg a Saesneg. Roedd perfformiad Cymraeg ym mhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg, a pherfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 50% is.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawni ymhlith bechgyn na disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson dda tuag at eu targedau. Nid yw cyflawniadau disgyblion uwch eu gallu yn y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg.

**Lles: Rhagorol**

Mae ymrwymiad bron pob disgybl at ddysgu yn ystod gweithgareddau yn ardderchog. Ym mhob gwers, maent yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ddangos brwdfrydedd eithriadol. Gallant gydweithio'n aeddfed iawn mewn grwpiau, gan ddangos parch a gwerthfawrogiad o gyfraniad ei gilydd wrth drafod a chwblhau tasgau ar y cyd.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o beth sydd angen ei wneud i fyw yn iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan yn y dewis da o weithgareddau sydd ar gael, gan gynnwys dadansoddi a gwerthuso eu perfformiad, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfrifiaduron llechen i ffilmio'u gweithgareddau.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig iawn ac yn gwneud cyfraniad positif lle mae llais y disgybl yn cael effaith glir ar fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos balchder mawr yn eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau penodol a gweithgareddau ailgylchu ac arbed ynni.

Mae ffigyrau presenoldeb yr ysgol ar y cyfan yn dangos cynnydd araf ond cyson yn ystod y blynyddoedd diweddar. Yn ystod y pedair blynedd hyd at 2013, mae lefelau presenoldeb wedi amrywio o fod ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg i'r 25% uchaf. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gwobrau dosbarth a blynyddol am bresenoldeb uchel. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu eang sy'n ennyn diddordeb disgyblion o bob gallu ar draws yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn diweddaru ei chynlluniau tymor hir a chanolig i ateb anghenion disgyblion. Mae'r cynllunio ar y cyd yn effeithiol ac yn sicrhau bod gwersi'n symbylus a bod dilyniant a pharhad yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r cynllunio ar draws yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llafar yn rhagorol a'r cynllunio ar gyfer darllen ac ysgrifennu yn dda. Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen i ddatblygu ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau.

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyfoethogi'n dda gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn rhagorol ac yn amlwg iawn ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol a diddorol er mwyn meithrin hunaniaeth y disgyblion. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei integreiddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae defnydd effeithiol o arddangosfeydd diddorol am Gymru a Chymreictod ar draws yr ysgol, ac mae rhain yn cynnwys iaith gyfoethog i symbylu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy yn effeithiol trwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys lleihau gwastraff, ailgylchu, ailddefnyddio, compostio, defnydd o ddŵr glaw a gweithgarwch garddio.

Ceir darpariaeth effeithiol i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang mewn gweithgareddau fel wythnos masnach deg a chysylltiadau â gwledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr yn bwydo iaith o safon uchel iawn i'r disgyblion. Mae ganddynt berthynas dda iawn gyda'r disgyblion ac mae eu gwybodaeth bynciol yn dda.

Mae athrawon yn teilwra gweithgareddau yn effeithiol ar gyfer anghenion disgyblion ac yn cefnogi disgyblion yn dda yn ôl yr angen. Mae adnoddau dysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ysgogi a chynnal diddordeb disgyblion. O ganlyniad, mae llawer iawn o'r gwersi yn dda ac mae athrawon yn adeiladu ar addysgu blaenorol yn effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r addysgu yn gadarn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae cyflymdra priodol i'r gwersi, ac mae gweithgareddau pwrpasol yn herio disgyblion. Ym mhlith y nodweddion addysgu rhagorol mae disgwyliadau uchel, a gwaith cynllunio a pharatoi adnoddau o ansawdd da iawn. Mae strwythur clir i'r gwersi, mae'r gweithgareddau yn tanio dychymyg a brwdfrydedd y disgyblion ac mae cydbwysedd arbennig o dda rhwng arweiniad athro a gweithgarwch disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, nid oes digon o gyflymdra yn yr addysgu.

Mae adborth manwl ar lafar ac yn ysgrifenedig yn galluogi disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu ac mae targedau unigol disgyblion yn eu hannog i wella eu perfformiad. Mae strategaethau amrywiol effeithiol ar draws yr ysgol i gynorthwyo disgyblion i werthuso eu gwaith yn ôl meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid yw meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu'n ddigonol gyda'r disgyblion.

Mae rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth dda am ddatblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r ysgol yn dadansoddi ystod o asesiadau priodol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae'r trefniadau hyn yn gryfder o fewn yr ysgol ac mae gan yr ysgol ystod o gynlluniau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth gyda llythrennedd a rhifedd.

Mae disgyblion ag anghenion penodol yn derbyn rhaglenni unigol addas ar eu cyfer, sy'n sicrhau eu bod yn gweithio tuag at eu targedau er mwyn gwneud cynnydd a symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac mae'r ysgol yn ymgynghori'n briodol gyda disgyblion a rhieni fel rhan o'r broses.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol gan gynnwys y gwasanaethau Seicolegydd Addysg a therapi iaith

Rhoddir gofal ac arweiniad pwrpasol i'r holl ddisgyblion. Mae trefniadau effeithiol i ddatblygu gwerthoedd moesol a chymdeithasol y disgyblion wedi eu gwreiddio ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu eu ffitrwydd a chadw'n heini trwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol.

Mae'r pwyslais amlwg y mae'r ysgol yn ei roi ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn creu ethos gadarnhaol. Mae'r gwasanaethau dosbarth ac ysgol yn cefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn briodol ac yn hybu parch at eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn yr ysgol.  Mae’r pennaeth a’r staff yn datblygu cymuned gefnogol a gofalgar sy’n cael dylanwad cadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion.  Mae ystod dda iawn o arddangosfeydd lliwgar ar hyd y coridorau helaeth ac yn yr ystafelloedd dosbarth sy’n sicrhau awyrgylch dysgu symbylus.

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff pob disgybl hawl gyfartal ym mhob maes.  Caiff pob disgybl yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau.  Mae’r pwyslais amlwg a roddir ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cyfrannu’n dda at greu ymdeimlad teuluol a chartrefol yr ysgol.

Mae’r adnoddau da yn yr ysgol yn cael eu defnyddio’n effeithiol iawn gan y staff er mwyn cynnig profiadau diddorol ac ysgogol i’r disgyblion.

Mae’r ysgol mewn safle braf ac mae’r adeiladau a’r tir yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda.  Er ei fod yn hen adeilad, mae’n helaeth, a chaiff ei ddefnyddio’n effeithiol i gefnogi a hybu dysgu’r disgyblion o bob oed.  Mae’r ysgol wedi sicrhau bod ardaloedd dysgu priodol wedi eu darparu ar gyfer cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys ardaloedd allanol sy'n cyfoethogi’r dysgu’n effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol.  Mae'n llwyddo’n dda iawn i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr.  Mae arweinyddiaeth bwrpasol y pennaeth a’r uwch dim rheoli yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae’r holl staff yn dîm hynod effeithiol sy’n dangos ymroddiad llwyr a gweithredol i’r gwaith o ddatblygu dysgwyr annibynnol ac aeddfed sy’n meddu ar safonau uchel o iaith lafar.  Mae hyn yn amlwg yn holl weithgarwch yr ysgol, a gyda phob grŵp oedran o ddisgyblion.  Er enghraifft, mae pob athro a chymhorthydd yn bwydo a modelu iaith o safon uchel wrth ymwneud â’r disgyblion; ac mae cyfleoedd cyson ac effeithiol i ddisgyblion o bob oed ( a’u rhieni) gyfrannu at y broses o gynllunio gwaith y tymor.  Canlyniad hyn yw bod disgyblion yn medru cyfrannu’n aeddfed iawn i drafodaethau ynglŷn â phob agwedd ar fywyd yr ysgol, a hynny mewn iaith lafar o safon uchel iawn.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir.  Mae’r timau sy’n cydlynu’r meysydd dysgu ar draws yr ysgol yn gweithredu’n llwyddiannus.  Trwy gydweithio’n effeithiol, maent yn dangos parodrwydd i fynd i’r afael â materion fydd yn sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth.  Trwy ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i’w datblygu.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau.  Maent yn derbyn gwybodaeth gyson drwy adroddiadau’r pennaeth.  Mae cyflwyniadau ar ddata perfformiad yr ysgol yn sicrhau gwybodaeth gadarn y llywodraethwyr am sut mae perfformiad yn cymharu ag ysgolion tebyg.  Drwy aelodaeth o’r is-bwyllgor cwricwlwm, mae rhai o’r llywodraethwyr yn gyfeillion heriol a beirniadol o ran perfformiad yr ysgol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda o’i chryfderau a mannau i’w datblygu.  Mae’r broses hunanarfarnu wedi ei seilio’n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion, trafodaethau â disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata.  Mae staff, disgyblion a rhieni yn cymryd rhan briodol yn y broses o hunanarfarnu safonau a bywyd yr ysgol.  Er enghraifft, mae’r athrawon yn ystyried barn disgyblion a rhieni yn effeithiol iawn wrth gynllunio gweithgareddau’r dosbarth ac yn rhoi cyfle iddynt deilwra’r dysgu’n briodol.  Mae gan yr holl staff ymwybyddiaeth drwyadl o ddata perfformiad sy’n eu galluogi i adnabod anghenion unigolion a charfanau o ddisgyblion yn dda.

Fodd bynnag, nid yw’r llywodraethwyr yn cymryd digon o ran yn y broses hunan arfarnu.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen glir sy'n llywio gwaith yr ysgol.  Mae’n cynnwys dangosyddion llwyddiant, amserlenni priodol ac adnoddau rhesymol er mwyn cyrraedd y targedau gwella.  Mae’r uwch dim rheoli, ac athrawon sydd â chyfrifoldeb am agweddau ar y cynllun, yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd yn ofalus ac mae pob aelod o staff yn deall eu rôl wrth sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.  Fodd bynnag, nid yw’r broses o adolygu’r cynllun blaenorol yn ddigon cyson, nac yn canolbwyntio’n ddigon penodol ar fesur cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddiant.  O ganlyniad, nid yw rhai elfennau o’r blaenoriaethau presennol wedi eu seilio’n ddigonol ar dystiolaeth uniongyrchol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae perthynas dda gyda’r rhieni yn codi eu hymwybyddiaeth o waith yr ysgol yn effeithiol.

Mae cydweithio a chynllunio effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd.  Mae’r cynllunio ar y cyd yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn y cyfnod nesaf o’u haddysg.  Yn ogystal, mae’r trefniadau pontio yn hyrwyddo trosglwyddo effeithiol o safbwynt datblygiad cwricwlaidd a lles disgyblion.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal i gymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i ddarparu hyfforddiant ar y cyd.  Mae ymweliadau cyson rhwng yr ysgolion lleol wedi bod yn fodd effeithiol iawn o gyfnewid arferion da.  Er enghraifft, mae wedi rhannu ei strategaethau gwella ysgrifennu gyda ysgolion eraill yn effeithiol iawn.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol. Cryfder arbennig yw'r cysylltiad gyda chyn ddisgyblion o'r ysgol uwchradd sy'n ehangu profiadau dysgu'r disgyblion mewn clybiau ar ôl ysgol ac wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae gan yr ysgol berthynas adeiladol gyda'r awdurdod lleol ac maent yn manteisio'n briodol ar y gwasanaethau sydd ar gael.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o athrawon i ymdrin yn briodol â phob agwedd ar waith yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff ac mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda gan wneud cyfraniad gwerthfawr i ddysgu disgyblion ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad cadarn a hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae staff yn arsylwi ei gilydd ac yn cael cyfleoedd buddiol i gyd-drafod ac efelychu arferion da.

Mae'r ysgol yn datblygu'n effeithiol fel cymuned ddysgu. Mae diwylliant iach o gydweithio effeithiol rhwng y staff cyfan ac mae hyn yn cael ei feithrin yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Trwy hyn, gwneir defnydd pwrpasol iawn o gryfderau addysgu a diddordebau staff ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau. Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion y clwstwr yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, a gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, maent yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n effeithiol ac maent yn gwneud penderfyniadau cyllidebol priodol yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried y safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad cyffredinol yr ysgol ar y Deilliant 5 disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen wedi dangos cynnydd o’r 50% isaf i’r 50% uchaf o’u cymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn datblygiad llythrennedd a mathemateg yn y 50% uchaf o’u cymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad disgyblion mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn dangos cynnydd yn ystod y ddwy flynedd, ac wedi symud o blith y 25% isaf i’r 50% is o ysgolion tebyg yn 2013. Roedd perfformiad y disgyblion mwy abl ar Ddeilliant 6 mewn datblygiad llythrennedd a mathemateg ym mhlith y 50% is yn 2012 a 2013, o’u cymharu ag ysgolion tebyg . Cynyddodd y perfformiad mewn datblygiad mathemategol o’r 25% isaf yn 2012 i’r 50% is yn 2013. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad personol a chymdeithasol wedi bod ym mhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, o’u cymharu ag ysgolion tebyg, cynyddodd perfformiad cyffredinol yr ysgol i’r 25% uchaf ar y lefel 4 ddisgwyliedig. Yn y tair blynedd cyn hynny, amrywiodd perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth rhwng y 25% isaf a’r 50% is ym mhlith ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% is a’r 50% uwch. Yn 2013, fe wellodd perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg a Saesneg. Roedd perfformiad Cymraeg ym mhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg, a pherfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 50% is.

Ar y cyfan, nid oes patrwm clir o wahaniaeth perfformiad rhwng bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2, er bod tuedd i ferched y Cyfnod Sylfaen berfformio’n well na bechgyn ar y lefelau uwch (deilliant 6).

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad y disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim a gweddill y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhai nad ydynt â’r hawl i ginio am ddim yn cyflawni yn uwch na’r rhai sydd â’r hawl. Serch hynny, fe gaeodd y bwlch hwn yn sylweddol yn 2013.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 105 | 102<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 105 | 99<br>94%<br>92% | 6<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 97<br>92%<br>97% | 8<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 105 | 104<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 105 | 102<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 105 | 99<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 105 | 102<br>97%<br>99% | 3<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 105 | 103<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 105 | 98<br>93%<br>91% | 7<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 105 | 92<br>88%<br>95% | 13<br>12%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 105 | 80<br>76%<br>77% | 25<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 105 | 86<br>82%<br>84% | 19<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 62 | 46 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 74% | 24% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 62 | 48 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 62 | 48 | 12 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 19% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 62 | 46 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 74% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 62 | 26 | 30 | 2 | 0 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 48% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 62 | 46 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 62 | 50 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 62 | 40 | 19 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 65% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 61 | 40 | 14 | 2 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 66% | 23% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 62 | 35 | 21 | 1 | 0 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 62 | 44 | 16 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 57 | 30 | 18 | 1 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 32% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 62 | 31 | 27 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 62 | 36<br>58% | 23<br>37% | 3<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 62 | 26<br>42% | 21<br>34% | 3<br>5% | 2<br>3% | 10 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 60 | 36<br>60% | 21<br>35% | 2<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 51 | 23<br>45% | 11<br>22% | 1<br>2% | 0<br>0% | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 61 | 23<br>38% | 31<br>51% | 1<br>2% | 1<br>2% | 5 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 60 | 41<br>68% | 15<br>25% | 2<br>3% | 1<br>2% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Anthony John Bate | Arolygydd Tîm |
| Richard Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ms Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Elizabeth Non Neave | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Owen | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.